

# ROBERT GWYN a'i "Fariwns mewn Geirie"

Gan ALUN JONES

"O BLEGID mi wn o wir frys visio o hana i yn fynych Am na chefais enyd y ddarllen dim o heni drosti eilwaith." Fel yna yr aeth Robert Gwyn, yr offeiriad Pabyddol o Benyberth yn Llŷn, i ymddiheuro am y "beie" yn ei lythyr dau gant a hanner o dudalennau a ysgrifennodd yng Ngholeg Douai yn 1574.

Diolch i lafur ein ysgolheigion diweddar, yn arbennig Geraint Bowen, Alun Mathias a Gerallt Harries, mae hynt a helynt Robert Gwyn wedi dod yn llawer mwy cybyddus i ni, ac fel y mae'r rhagfarn ynyd yn erbyn pawb a phopeth Pabyddol yn graddol gilio mae gobaith i'n gwerthfawrogiad o ymdrech ac argyhoeddiad Robert Gwyn a'i debyg ddyfnhau.

Mae'r stori, debyg iawn, yn stori antur ynddi'i hun, - y smyglo llythyrau o'r Cyfandir, y teithio dirgel a'r ymguddio mewn cartrefi fel Plas Du a Phenyberth, heb sôn am ddrama fawr Ogor Rhiwledyn.

Ond ar wahân i'r stori, mae llythyrau Robert Gwyn eu hunain yn llawn cyfoeth, ac nid y lleiaf oherwydd eu hiaith a'u harddull. Dyma dafodiaith Penyberth bedair canrif yn ôl.

Gan fod y gair 'beie' ei hun wedi'i sillafu mewn tair gwahanol ffordd ym mharagraff cyntaf ei lythyr o Douai, fe welwn ei fod yn ddiffuant o leiaf. Nid "yr awdur sy'n gyfrifol am bob bai" arferol a gawn yma. Ond nid oes angen iddo bryderu llawer am "visio", prun bynnag. Mae o hyd bobl yn Llŷn sy'n dal i

"fasio duall" pan fo pawb arall yn methu dallt.

\*\*\*

RHAI O'R geiriau a berai syndod i Alun Mathias yn ei erthygl ar Robert Gwyn yn 'Llên Cymru' yn 1954 oedd 'kimint', 'gobithio', 'tyrnas' a 'sibiant'. Ond o wrando eto ar bobl Llŷn ac o gofio mai ei glust ei hun oedd geiriadur a llyfr orgraff Robert Gwyn nid yw'n rhyfedd mai'r sillafiadau hyn a geir yn ei waith. Mae'n sgrifennu - yn byrlymu sgrifennu - yn syth o'i glust.

Mae'n gyfieithydd hefyd. Gan ei fod yn dyfynnu'n helaeth o'r Beibl, mae'n defnyddio'i gyfieithiadau ei hun. 'Doedd dim arall ar gael iddo, debyg, oherwydd go brin y byddai ef yn gor-fodio Testament yr opiniadwr Salesbury.

Ac felly 'rydym yn cael Duw yn dweud pethau fel "Na thwitsiwch ddim ar y sydd yn perthyn iddynt," a'r dŵr "hoiwdwym ne gylar" yn cael ei "chwdu allan oy enau yn gwith". Dyna air y mae maneg Pen Llŷn wedi'i ffitio'n dynn amdano.

Ond nid felly y mae i gyd. Mae "sain sion" (a barchuswyd i Sant Ioan gan y darnwyr) yn gallu dweud yn y llythyr kyntaf ar penod Cyntaf ein bod yn "gydmweithgar ay gilydd" pan yw'r Esgob William Morgan ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn bodloni ar ddweud fod i ni "gymdeithas â'n gilydd". Dichon felly nad yw'r hen Robat "yr anapla or kwbwl".

Er bod Protestaniaeth yn lled-newydd yn Ewrop (ac yn fwy newydd fyth yng Nghymru) yn y cyfnod hwn, nid oedd dim yn newydd ynddo i Robert Gwyn. Yr un hen flaidd oedd hwn hefyd, dim ond ei fod wedi dod o hyd i ryw wisg ffansi nad oedd wedi bod amdano o'r blaen.

Ac felly, yr hyn a geir yn 'Gwssanaeth y Gwyr Newydd', llythyr a sgrifennodd yn Rhufain yn 1580, yw dinoethi didrugaredd, tynnu pob cerpyn oddi ar yr hen flaidd a'u lluchio ar y domen er mwyn ei ddangos yn ei noethni ysgeler. A rhan hanfodol o'r dinoethi yw dangos hefyd fel y'i dinoethwyd ar hyd canrifoedd cred bob tro yn ymddangosodd o'r newydd.

Dull Robert Gwyn o wneud hyn, yn union fel ei gyd-reciwsantiaid a ledaenai eu neges trwy Loegr, yw pentyrru stori ar ben stori, enghraifft ar ben enghraifft, i brofi'i bwynt. "Un sampal eto gewch y glywad ..." ac i ffwrdd â fo. Nid oes ball ar yr ymdrech i argyhoeddi.

\*\*\*

MAE LLAWER o'r straeon a'r dadleuon ym mhegwn eithafiaeth, fel y gellid disgwyl, yn enwedig i ni heddiw sydd wedi'n magu a'n trwytho i ffordd o feddwl hollol wahanol i'r eiddo cenedlaethau Robert Gwyn a'i debyg, yn Babyddion a Phrotestaniaid.

Mae'n debyg fod y Meddwl Modern yn teimlo fod cosbedigaethau Duw am y pechodau mwyaf pitw a diniwed braidd yn anghymesur a dweud

y lleiaf. Ond yr hyn sy'n bwysig yma yw mai Duw sy'n mynd i gosbi bob tro, nid yr Eglwys na'r Pab. Dyna gred Robert Gwyn, ac mae'n credu hynny i'r eithaf.

Dyna pam nad propagandydd mohono, yn ein hystyr ni o'r gair. Mae propaganda modern yn ffug yn ei hanfod. Nid felly Robert Gwyn. Ymdrech y mae ef i blannu ei argyhoeddiad ef ei hun yng nghalonau ei ddarllenwyr. Nid poeni am ddyfodol ac awdurdod yr Eglwys Babyddol y mae, ond poeni am eneidiau ei deulu a'i gyd-nabod a'i gyd-wladwyr.

A phrun bynnag, mae arweinwyr pob sect ac enwad yn eu tro wedi gwneud y defnydd helaethaf posibl o'r union fath ar straeon yr oeddynt yn eu condemnio fel coegchwedlau ac ofergoeliaeth pan gaent eu defnyddio gan y Pabyddion.

Yn 1970 y cyhoeddodd Gwasg Prifysgol Cymru 'Gwssanaeth y Gwyr Newydd', wedi'i olygu gan y diflino Geraint Bowen. Yn y rhagair mae'n dweud fod argraffiad o lythyr mawr 1574 i ddod o'r wasg "yn fuan". Rŵan, rydym i gyd yn gwybod ystyr y gair 'buan' yn y geiriadur y mae Gwasg Prifysgol Cymru'n ei gyhoeddi. Mae gennym syniad reit dda hefyd o'i ystyr yn y geiriadur y mae'r Wasg yn ei ddefnyddio. Ond deunaw mlynedd?

Dewch yn eich blaenau bois bach. Mae 'na o leiaf un Casglwr sy'n aros yn awchus. Ond yn bwysicach na hynny, mae offeiriad Penyberth yn haeddu gwell.

## DAVID NICHOLAS RHOS POINT BOOKS

85 Y Promenade, Llandrillo yn Rhos, Bae Colwyn, Clwyd  
Ffôn: (0492) 45236 (dydd)

Llyfrau ail-law ar werth ac yn eisiau. Hefyd llyfrau newydd.

### CARMARTHEN BOOKS

Rhodfa'r Farchnad,  
Caerfyrddin

Ffôn: (0276) 237656

GWEIRYDD AP RHYS: Hanes y Brytaniaid a'r Cymry £ 38.50  
BEAUTIES of Cambria ... by a native artist £225.00  
DAVIES, W.J.: Hanes plwyf Llandysul £ 28.00  
MARWNAD mewn mynwent wledig: cyf. gan T.  
Ifor Rees. Arg. yn Ninas Meccico £10.00

Ciudiant yn gynwysedig yn y pris